**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref CS/00382/14

David Melding AC
Cadeirydd – Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

LegislativeProgramme.TeamMailbox@cymru.gsi.gov.uk

| Ebrill 2014

Annwyl David

**CLA362 – Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth ynghylch yr ystyriaeth a roddwyd gan y Pwyllgor i'r Offeryn Statudol uchod. Mae'n dda gen i glywed bod y Pwyllgor bellach yn fodlon â'r offeryn statudol hwn yn dilyn y pryderon a godwyd am y cyd-destun.

Rydych yn gywir i nodi bod Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Darpariaethau Canlyniadol) (Rhif 3) 2008 wedi gwneud newidiadau canlyniadol i naw set o reoliadau Cymreig ond bod y newidiadau wedi'u gwneud i'r testun Saesneg yn unig. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cael ei hysbysu o'r angen i ddiwygio'r ddeddfwriaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Yn achos offerynau statudol dwyieithog, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Gymreig godi'r mater hwn gyda'u cydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Undig yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfieithiadau o'r diwygiadau, i'w mewnosod yn offerynau statudol y DU.

Rwy'n cydnabod y byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gweld sylwadau penodol ynghylch rheoliad 2(4)c yn y Memorandwm Esboniadol ac ni allaf ond ymddiheuro am yr amryfusedd hwn; dylem fod wedi cynnwys sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol. Rwyf wedi rhoi gwybod i'm swyddogion er mwyn osgoi unrhyw amryfusedd tebyg yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn sgîl pryderon y Pwyllgor am ddiffyg diwygiadau dwyieithog yn sgîl 'Rheoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Darpariaethau Canlyniadol) (Rhif 3) 2008', bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gwiriadau pellach i destunau Cymraeg a Saesneg unrhyw setiau eraill o reoliadau dwyieithog a ddiwygiwyd yn Saesneg yn unig gan y Rheoliadau hyn. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol wedi'u gwneud, a bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn gwbl gyson â'i gilydd.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration